**Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Mercher, 25 Mai 2022**

**YN BRESENNOL:** Mrs Caroline White (Cadeirydd), Mr Alan Davies, Miss Caryl Davies a Ms Carol Edwards (Aelodau Annibynnol)

Y Cynghorwyr Gwyn Evans a Caryl Roberts (Aelodau Etholedig)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau)

(10.00am-12.20pm)

**1 Materion Personol**

Croesawodd y Cadeirydd y ddau Gynghorydd Sir newydd, y Cynghorwyr Gwyn Evans a Caryl Roberts, i'r cyfarfod.

**2 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Mr John Weston am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

**3 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Dim.

**4 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd 17 Ionawr 2022**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 yn rhai cywir yn amodol ar newid gair olaf y penderfyniad yn eitem 7 (b) yn y fersiwn Saesneg i 'received'.

**5 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd 07 Chwefror 2022**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 07 Chwefror 2022 yn rhai cywir.

**6 Materion yn Codi**

Cofnodion 17/01/2022 - Eitem 3, Unrhyw Fater Arall – Dywedodd y Swyddog Monitro y cytunwyd â Chyngor Sir Powys y byddai Aelodau o Bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion hefyd yn Aelodau o Cyd-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru. Serch hynny, nid oedd nifer yr Aelodau a oedd eu hangen yn hysbys eto a dywedwyd bod hyn yn amodol ar gyngor oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ynglŷn â chyfansoddiad y pwyllgor.

**7 Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22**

Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am baratoi'r Adroddiad Blynyddol.

Cytunodd y Pwyllgor i GYMERADWYO fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn amodol ar newid y ffigwr ar dudalen 32 yr adroddiad.

**8 Cynllunio olyniaeth-aelod lleyg**

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch cynllunio olyniaeth o ran aelodau lleyg. Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD i argymell i'r Cyngor y dylai gymeradwyo'r canlynol:
(i) disgrifiad y rôl, y manyleb personol a'r meini prawf (fel yr amlinellir yn yr Atodiad)
(ii) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:
• Cadeirydd y Cyngor (yn absenoldeb yr Is-gadeirydd);
•Aelod Annibynnol / Lleyg o'r Panel (enwebwyd gan y Swyddog Monitro)
• Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu unrhyw aelodau annibynnol a enwebwyd gan y Swyddog Monitro fel y bo angen)
• Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru; a
(iii) newid y teitl 'disgrifiad swydd' yn yr Atodiad gan roi 'disgrifiad o'r rôl' yn lle hynny.

**9 Diweddariad recriwtio Cynghorwyr Cyngor Tref/Cymuned**

CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a roddwyd a dywedwyd y dylid ystyried cydbwysedd o ran y rhywiau ar y Pwyllgor, os byddai modd gwneud hynny, yn ystod y broses benodi.

**10 Penderfyniadau Cod Ymddygiad gan yr Ombwdsmon**

CYTUNWYD i nodi'r penderfyniadau a gyflwynwyd o ran y Cod Ymddygiad ers cyhoeddi'r Coflyfr diwethaf. Roedd yr Aelodau yn cytuno â'r fformat newydd o gyflwyno'r wybodaeth. Byddai'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei dosbarthu i Arweinwyr y Grwpiau ac yn cael ei defnyddio fel deunydd hyfforddi.

**11 Materion y Cod Ymddygiad-Diweddariad ar erthyglau'r wasg**

Dim.

**12 Tueddiadau'r Cwynion am Gynghorwyr - 2021**

Ystyriwyd y tueddiadau o ran cwynion sy'n ymwneud â Chynghorwyr ar gyfer 2021/22. CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth. Nodwyd hefyd y byddai adroddiad o'r tueddiadau yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol a allai gynnwys mwy o wybodaeth gyffredinol pe byddai'r Swyddog Monitro yn ystyried bod hyn yn dderbyniol. Yn ogystal, byddai Arweinwyr y Grwpiau yn rhan o unrhyw gŵyn yn erbyn eu Cynghorwyr o'r cychwyn cyntaf yn y dyfodol; a hynny oherwydd eu cyfrifoldeb newydd o ran arfarnu tueddiadau a gwella safonau yn ystod y weinyddiaeth newydd.

**13 Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â Chwynion a gyfeirir at Y Pwyllgor Moeseg a Safonau a chynnal gwrandawiadau**

Ystyriwyd y ddogfen ddiwygiedig ynghylch y Weithdrefn ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau. Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD i argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen ar 07 Gorffennaf 2022 yn amodol ar ddiwygio'r rhifau. Byddai siart lif ynghylch y Gweithdrefnau ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau hefyd yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau.

**14 Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru**
CYTUNWYD i nodi'r penderfyniad a oedd wedi'i ddosbarthu ar e-bost o ran y Cynghorwyr Bishop, P Morgan, W Owen a D Poole.

**15 Y diweddaraf am fater yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**
Ni chafwyd adroddiad.

**16 Hyfforddiant**
•Cynhaliwyd hyfforddiant i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ar 27 Ebrill 2022 a dywedwyd bod 30 o Glercod yn bresennol. Darparwyd nodiadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Clercod fel y gallent hwyluso hyfforddiant ar gyfer eu Cynghorau Tref / Cymuned.
•Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ynglŷn â Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor ar 24 Mai 2022
•Byddai'r hyfforddiant ynglŷn â'r Weithdrefn ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau yn cael ei gynnal ar 30 Medi 2022
•Byddai'r hyfforddiant i Arweinwyr y Grwpiau yn cael ei gynnal ar 06 Mehefin 2022
•Roedd Cyngor Tref Aberystwyth a Chyngor Cymuned y Borth wedi gofyn am hyfforddiant. Anogwyd Aelodau'r Pwyllgor i gynorthwyo â'r hyfforddiant unwaith y byddai wedi'i drefnu.
•Nodwyd bod Un Llais Cymru yn cynnig hyfforddiant ynglŷn â'r Cod Ymddygiad i bob Cynghorydd Tref a Chymuned.
•Roedd y modiwlau hyfforddi newydd ar gael i'r Aelodau Annibynnol ar y llwyfan E-ddysgu newydd. Serch hynny, roedd angen cael cadarnhad a fyddai'r hyfforddiant hwn ar gael i Glercod a Chynghorwyr y Cynghorau Tref a Chymuned, unwaith y byddai cynnwys y deunydd hyfforddi wedi dod i law.
•Soniwyd am yr angen o bosib i ymestyn yr hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad dros gyfnod hirach o amser fel y gallai'r Cynghorwyr Tref a Chymuned amsugno'r wybodaeth gymhleth a gyflwynwyd.
•Dywedwyd bod yr hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad yn un cenedlaethol a oedd yn cael ei ddarparu ar-lein. Ystyriwyd y gallai hyn fod yn broblem i Gynghorwyr sy'n gynghorwyr ers tro byd, a fyddai'n dymuno derbyn yr hyfforddiant wyneb yn wyneb. Byddai un o'r swyddogion yn cysylltu â'r clercod i weld a fyddai'n well ganddynt gael hyfforddiant ar-lein neu wyneb yn wyneb. Nodwyd hefyd nad oedd nifer o Glercod yn teimlo'n gyfforddus i ddarparu'r hyfforddiant hwn i'w Cynghorau.
•Byddai'r Swyddog Monitro yn gofyn am gopi o Raglen Hyfforddi'r Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn gweld a oedd hyfforddiant wedi'i roi ynghylch y Cod Ymddygiad. Nodwyd bod cais wedi'i wneud am y Rheolau Sefydlog a'r Broses Ddatrys Leol yn flaenorol. Gan fod pob Cynghorydd Sir yn mynd i gyfarfodydd Cynghorau Tref a chymuned yn eu wardiau, dywedwyd y dylent hyrwyddo'r hyfforddiant a oedd ar gael.

**17 Blaenraglen Waith**

CYTUNWYD i nodi’r Flaenraglen Waith fel y’i cyflwynwyd. Dywedodd y Cadeirydd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf cyn 02 Tachwedd 2022. Tynnodd y Swyddog Monitro sylw at y goblygiadau o ran adnoddau o drefnu cyfarfodydd brys a bod angen i’r Aelodau drefnu eu gwaith yn briodol i weld a fyddai angen gollyngiad arnynt. Dywedwyd mai’r bwriad gwreiddiol oedd cynnal y cyfarfod a oedd yn cael ei gynnal heddiw ym mis Gorffennaf. Byddai cais yn cael ei wneud i gynnal y cyfarfod hwn ym mis Medi neu ym mis Hydref yn hytrach nag ym mis Tachwedd.
Cytunwyd y byddai adroddiad y Swyddog Monitro am dueddiadau, hunanarfarnu a’r cynlluniau hyfforddi ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hychwanegu at agenda’r cyfarfod nesaf.

Cytunwyd hefyd y byddai Cofnod o Gamau Gweithredu’r cyfarfod heddiw yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf; yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**18 Ystyried unrhyw gais arall am ollyngiad a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r agenda**

Dim.

**19 Unrhyw fater arall y penderfyna’r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a Moeseg a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 13 Hydref 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**